# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Mike White | Adran Etholiadol: | Glandŵr |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Dyma ddyletswyddau'r ward a'r cyfarfodydd yr euthum iddynt:-

Cynhaliwyd cymorthfeydd ward ar 2il ddydd Sadwrn y mis yng Nghanolfan Gymunedol Parc Llewellyn am 11am/ganol dydd ac ar 3ydd dydd Sadwrn y mis yng Nghanolfan Gymunedol Parc Montana am 11am/ganol dydd.

Cefais gyfarfodydd PACT â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu 3 Adran yr Heddlu yn y ward (roedd y rhain yn fisol). Euthum i gyfarfodydd yn Ysgol Iau Brynhyfryd ac Ysgol Gyfun Pentrehafod (bob tymor).

Euthum i gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Canolfannau Cymunedol (chwarterol) a chyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y De, bob 6 wythnos neu oddeutu hynny). Yn ychwanegol, euthum i gyfarfodydd Grŵp Cyfeillion y Parc.

Gweithiais gyda'r Adran Cludiant i roi Gorchmynion Rheoleiddio Traffig newydd ar waith y tu allan i ysgolion lleol yn y ward a threfnais i fesurau traffig gael eu rhoi ar waith yn rhan uchaf Heol Trewyddfa. Yn ychwanegol at yr uchod, ymatebais i gwynion etholwyr yn ddyddiol.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 | / | 8 | 63 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr yr ALI | 8 | / | 10 | 80 | % |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 6 | / | 6 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 44 | / | 51 | 86 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Roeddwn yn aelod o'r paneli ymchwilio craffu canlynol:

Twristiaeth, Lles, Parciau, Adeiladau Hanesyddol, Rhandiroedd, Strydlun

Roeddwn hefyd yn aelod o'r cyrff allanol canlynol ar ran y cyngor:

Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, Cyd-gonsortiwm Gwastraff De-orllewin Cymru a Chwmni Gwaredu Gwastraff Abertawe.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Gweithiais yn yr Adran Parciau ar wella 'Man Chwarae Plant', Stryd Davies, Plasmarl. Ni wnaed gwelliannau i'r lleoliad ers o leiaf 20 mlynedd.

Cefais gyfarfodydd â chynrychiolwyr STADCO, Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe i drafod eu cynllun teithio ynglŷn â'u cais cynllunio i estyn Stadiwm Liberty.

Gweithiais gyda phreswylwyr lleol/ysgolion/grwpiau cymunedol/swyddog cyswllt parciau i sefydlu 'Cyfeillion Parc yr Hafod' newydd. Cynorthwyais Ysgol Iau Brynhyfryd i ddatblygu prosiect gardd ar dir llawn chwyn sy'n cefnu ar yr ysgol.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r cyrsiau hyfforddiant canlynol:

05/03/2014 - Cyfryngau Cymdeithasol
17/12/2013 - Cyflwyniad i Hyfforddiant Cyfryngau
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
14/10/2013 - Gwneud Penderfyniadau Ymlaen Llaw

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roedd hi'n bwysig ac mae'n bwysig o hyd fod gan y ward lais cryf i'w chynrychioli ar y cyngor, a bod etholwyr yn cael y cyfle i godi materion/pryderon gyda'u cynghorwyr a allai effeithio ar eu cymuned.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol - £13,175

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 14.05.14 |